Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 6 - Ebrill 2010

Dyddiad Newydd yr Ŵyl - 6 Tachwedd

Mae'r Pasg cynnar wedi'n drysu ni'n lân, ac felly mae'n bwysicach nag erioed i nodi'r dyddiadau pwysig ar y calendr corawl mewn da bryd. Gyda 56fed Gŵyl Corc ddiwedd y mis a Gŵyl Gerddorol Ryngwladol Llangollen ym mis Gorffennaf, cyn pen dim bydd y dyddiad cau ar gyfer Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru ar ein gwarthaf!

Felly, os nad ydych eisoes wedi cysylltu â ni i gofrestru eich côr ar gyfer y digwyddiad cerddorol hynod o boblogaidd hwn yng Ngogledd Cymru, gwnewch hynny'n ddi-oed. Bydd Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru 2010 yn cael ei chynnal yn adeilad gwych Venue Cymru ar Bromenâd Llandudno, lle cewch 'weld y môr a'i donnau', ddydd Sadwrn 6 Tachwedd. Y dyddiad cau ar gyfer eleni yw dydd Gwener, 24 Medi. Felly, beth am gofrestru rŵan?

Os nad ydych chi wedi cael y pleser o gystadlu o'r blaen, bydd diddordeb gennych mewn cael gwybod bod corau o bob rhan o Brydain ac Iwerddon yn dod i Landudno i gystadlu yn y pedwar dosbarth a ganlyn, Corau Ieuenctid, Corau Cymysg, Corau Merched a Chorau Meibion. Eleni rydym wedi penderfynu ychwanegu elfen newydd ddifyr iawn i'r ŵyl gydag adran ar gyfer cantorion siop barbwr hefyd.

Bydd y corau'n cystadlu yn ystod y dydd am wobrau o £100 am y trydydd safle, £200 am yr ail safle a £500 am y safle cyntaf. Bydd enillwyr pob adran wedyn yn cystadlu y noson honno yn y cyngerdd buddugwyr, y mae pawb yn ei hoffi, a bydd cyfle i ennill £500 ychwanegol fel y côr gorau'r ŵyl, yn ogystal â chyfle i ennill cwpan y buddugwyr a theitl cystadleuaeth 2010.

Mae llawer o adloniant rhwng yr ymarferion oherwydd rydym yn annog aelodau'r corau i fwynhau perfformiadau eraill y gystadleuaeth. A bydd cyfle i groesi'r ffordd i fynd i siopa ym Mharc Llandudno gyda'i siopau cadwyn mawr. Petaech yn dymuno gweld sioe rhwng cystadlaethau'r dydd a'r cyngerdd nos, mae'r theatr yn Venue Cymru ei hun.

Pa fodd bynnag y byddwch yn penderfynu treulio'ch amser yn Llandudno, rydym yn siŵr y bydd aelodau'r côr yn mwynhau'r cystadlu a lleoliad manteisiol yr ŵyl!

I gael rhagor o wybodaeth sut i gofrestru eich côr, neu sut i brynu tocynnau, ewch i'n gwefan www.northwaleschoralfestival.co.uk

I drafod diwrnod yr Ŵyl yn anffurfiol ffoniwch Alun Pritchard, Trefnydd yr Ŵyl ar 01492 575948 neu anfonwch e-bost at alun.pritchard@conwy.gov.uk

Gyda diolch i'n noddwyr:
Conwy County Borough Council
Stena Line Making good time
pianos cymru
St George's Hotel
design2print Everything from design to print.